WISERD
Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru
Wales Institute of Social and Economic Research and Data

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD

# 13eg Arolwg Blynyddol

## Adroddiad Blynyddol | 2024-25



# Cefndir

**Mae Astudiaeth Aml-Garfan WISERD (WMCS) yn astudiaeth hydredol flynyddol i ddilyn cynnydd plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny yng Nghymru. Bob blwyddyn, rydym yn dilyn o leiaf tair carfan o ysgolion ledled Cymru ac yn gofyn cwestiynau am eu profiadau o'r ysgol a'u safbwyntiau ar faterion cenedlaethol a rhyngwladol.**

Ceir yma grynodeb o ganfyddiadau allweddol arolwg y flwyddyn ysgol 2024-25, gyda'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Mae crynodebau o'r canlyniadau ar gyfer ein holl gwestiynau o bob blwyddyn yr arolwg (2012 ymlaen) ar gael ar Borth Data WISERD (dataportal.wiserd.ac.uk).

**Tîm Prosiect**

Dr Rhian Barrance (Cyfarwyddwr)
Dr Mark Connolly (Cyfarwyddwr Dros Dro)
Dr Laura Arman (Cydymaith Ymchwil)
Yr Athro Chris Taylor (Ymgynghorydd)
Zoe Rozelaar (Gweinyddwr)

**Tîm Data**

Sam Morgan (Uwch Dechnegydd Data)

# Cynnwys

Demograffeg 3
Ymddiried a chefnogaeth 5
Cwricwlwm a Gwersi 7
Absenoldeb a pherthyn 8
Gwerthoedd 11
Penderfyniadau yn yr ysgol 12
Cymru amlieithog 13
Cymraeg 14
Deallusrwydd artiffisial (AI) ac ysgolion 15


# Demograffeg

**Yn ein 13eg arolwg blynyddol, gwahoddom gyfraniadau disgyblion blynyddoedd 7, 9, 11 a 13 a derbyniom ymatebion gan 1,810 o ddisgyblion yn oll.**

Rydym yn gweithio gydag ysgolion ar sail wirfoddol ac yn annog cyfranogiad gan gyfranogwyr blaenorol, cymaint â phosibl, er mwyn cadw'r carfannau i'r dadansoddiad hydredol. Ein nod yw casglu sampl o bob cwr o Gymru, gyda chynrychiolaeth o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, crefyddol ac ieithyddol.

## Rhywedd

Gofynnom i'n cyfranogwyr 'Beth yw eich rhywedd?' a chaniatáu iddynt ddewis un o bedwar opsiwn, gan gynnwys un a oedd yn caniatáu iddynt hunan-ddisgrifio:




## Anabledd

Dywedodd 10% o'n sampl fod problemau iechyd hirdymor neu anableddau yn cyfyngu "ychydig" ar eu gweithgareddau dydd i ddydd a dywedodd 2% eu bod yn cyfyngu "llawer", tra bod yn well gan 6% o'n sampl beidio ag ateb y cwestiwn.

## Anghenion dysgu ychwanegol

Dywedodd 16% o'r sampl eleni eu bod ar ryw adeg wedi derbyn cymorth ychwanegol yn yr ysgol oherwydd anawsterau dysgu. Ymatebodd 19% arall nad oeddent yn siŵr a oedd ganddynt gefnogaeth ychwanegol ai beidio.

## Prydau ysgol am ddim

Dywedodd

**25%**

o'n sampl eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.



## Cyfrwng iaith


Roedd


**32%**

o'n cyfranogwyr yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.



## Dyma restr o bethau sydd gan rai pobl ifanc eich oedran. Os gwelwch chi'n dda, dywedwch wrthym pa rai sydd gennych







# Ymddiried a chefnogaeth


**Gofynnon ni am brofiad y disgyblion o gefnogaeth yn yr ysgol ac os oedd ganddynt farn gadarnhaol o'u hathrawon.**




Eleni, roedd y mwyafrif o ddisgyblion (61-62%) yn ymddiried mewn oedolyn yn yr ysgol ac yn gwybod ble i fynd am gymorth gydag unrhyw broblemau personol. Fodd bynnag, dywedodd 13% nad oedd ganddynt oedolyn yn yr ysgol y gallent ymddiried ynddynt a dywedodd 13% nad oeddent yn gwybod ble i fynd am help.

Pan ofynnwyd iddynt a allent ymddiried y byddai'r ysgol yn eu helpu gyda'u problemau personol, roedd llai o gytundeb ymhlith disgyblion, gyda 40% yn cytuno a 23% yn anghytuno.

## Dod o hyd i gymorth yn yr ysgol






Dim ond 15% o'r disgyblion yn ein sampl oedd yn teimlo eu bod "bob amser" yn cael digon o gymorth gan eu hathrawon pan fyddant yn gweld rhywbeth yn anodd, ond dywedodd 45% arall eu bod yn cael cymorth "y rhan fwyaf o'r amser". Dywedodd dros chwarter mai dim ond "weithiau" y maent yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, tra bod y 13% sy'n weddill yn teimlo nad ydyn nhw'n cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn aml iawn, gydag ambell un yn adrodd "byth".

Dywedodd dros hanner ein disgyblion eu bod "byth" neu'n "anaml" yn edrych i fyny at eu hathrawon (27% ar gyfer y ddau ymateb). Dywedodd y mwyafrif o ddisgyblion na ddylai athrawon "byth" (42%) neu'n "anaml" (30%) fod yn llymach.

Teimlai 32% o ddisgyblion mai "weithiau" mae'r athrawon yn gwrando arnyn nhw fel unigolion ac yn cymryd eu safbwynt o ddifri. Roedd bron i hanner yn teimlo hyn "y rhan fwyaf o'r amser" neu "bob amser".


Roedd dros hanner y disgyblion yn ein sampl (63%) yn meddwl bod gan athrawon ddisgwyliadau uchel ohonynt "y rhan fwyaf o'r amser" neu "bob amser", gyda chwarter yn teimlo hynny "weithiau". Fodd bynnag, roedd yr 13% sy'n weddill "byth" neu'n "anaml" yn meddwl bod gan eu hathrawon ddisgwyliadau uchel ohonynt ac roedd y mwyafrif ohonynt hefyd wedi nodi nad oeddent yn cael digon o gymorth (naill ai "byth" neu'n "anaml" yn cael digon o help).

# Cwricwlwm a Gwersi

**Roedd dros 60% o ddisgyblion yn ein sampl yn hoff o'u pynciau craidd i ryw raddau.**




Roedd
**81%**
yn hoffi eu gwersi Saesneg "ychydig" (51%) neu "llawer" (30%)



Roedd
**76%**
yn hoffi eu gwersi Gwyddoniaeth "ychydig" (48%) neu "llawer" (28%)



Roedd
**67%**
yn hoffi eu gwersi Mathemateg "ychydig" (45%) neu "llawer" (22%)




Roedd
**60%**
yn hoffi eu gwersi Cymraeg "ychydig" (45%) neu "llawer" (15%)


Saesneg oedd y pwnc mwyaf poblogaidd, gyda dim ond 18% o ddisgyblion ddim yn hoffi'r pwnc o gwbl. Mae hyn yn wir am ysgolion dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg (sydd wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn ein canlyniadau) ac ar gyfer ysgolion Saesneg.

Roedd y Gymraeg fel pwnc, fodd bynnag, yn fwy poblogaidd na Mathemateg mewn ysgolion dwyieithog/cyfrwng Cymraeg, gyda 36% ddim yn hoffi Mathemateg o gwbl a 30% ddim yn hoffi Cymraeg. Roedd 20% o ddisgyblion mewn ysgolion dwyieithog/cyfrwng Cymraeg yn hoffi'r Gymraeg "yn fawr" a 50% yn ei hoffi "ychydig", tra bod y gyfran oedd yn hoffi'r Gymraeg "llawer" mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mor isel â 13% gyda 45% yn ymateb "ddim o gwbl".

## Rwy'n deall fy ngwersi

Pan ofynnwyd iddynt a ydyn nhw'n deall eu gwersi, dywedodd ychydig llai na hanner y disgyblion eu bod yn deall "y rhan fwyaf o'r amser". Mae 18% "bob amser" yn deall ac, ar ben arall y raddfa, mae 3% yn dweud eu bod "byth" yn deall.


| | |
|---|---|
| Bob amser | 18% |
| Y rhan fwyaf o'r amser | 49% |
| Weithiau | 23% |
| Anaml | 8% |
| Byth | 3% |



## Rwy'n mwynhau fy ngwersi

Pan ofynnon ni i'r disgyblion am eu mwynhad o wersi, dewisodd y grŵp mwyaf (43%) ymateb "ddim yn cytuno nac yn anghytuno" i'r datganiad "Rwy'n mwynhau fy ngwersi". Roedd 34% yn cytuno â'r datganiad ac roedd 24% yn anghytuno.


| | |
|---|---|
| Cytuno | 27% |
| Anghytuno | 12% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 43% |
| Cytuno'n gryf | 7% |
| Anghytuno'n gryf | 12% |



# Absenoldeb a pherthyn

Yn ogystal ag absenoldebau oherwydd symptomau annwyd a ffliw neu salwch ac anafiadau amhenodol eraill, awgryma ein canfyddiadau bod iechyd meddwl gwael yn effeithio'n sylweddol ar bresenoldeb, gyda 19% o ddisgyblion yn nodi hyn fel rheswm dros absenoldeb o'r ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol hon.

## Yn ystod y flwyddyn ysgol hon, ydych chi wedi bod yn absennol am unrhyw un o'r rhesymau canlynol?






## Collodd traean o'r disgyblion yn ein sampl ysgol oherwydd gwyliau teuluol



Gall mwynhau gwersi a theimladau o ddiogelwch a pherthyn yn yr ysgol hefyd effeithio ar bresenoldeb. Ymatebodd 32% o'r disgyblion yn ein harolwg eu bod wedi colli'r ysgol am rai o'r rhesymau canlynol:

## Ydych chi erioed wedi colli dyddiau o'r ysgol oherwydd y rhesymau canlynol?



Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd nad oedd y disgybl yn mwynhau eu gwersi ac, fel y nodwyd yn gynharach (gweler tudalen 7), dywedodd bron i chwarter y disgyblion nad oeddent yn **mwynhau eu gwersi.**

Yr ail reswm mwyaf cyffredin a ddewiswyd oedd colli'r ysgol am nad oeddent "yn tynnu ymlaen gyda disgyblion eraill" a gwyddem o gwestiwn blaenorol mai dim ond traean y disgyblion oedd yn teimlo bod eu hysgol yn delio yn dda â **gwrthdaro rhwng disgyblion** yn gyson (gweler graff tudalen 5).

## Rydym yn dod o hyd i gysylltiadau tebyg â chwestiynau eraill:

Peidio â thynnu ymlaen ag athrawon → yn ôl 18% o ddisgyblion, **Mae fy athrawon yn gwrando arna i ac yn cymryd fy safbwyntiau o ddifri** "anaml" a "byth" (gw. tudalen 6)

Gwersi yn rhy anodd → ymatebodd 12% o ddisgyblion i **Rwy'n deall fy ngwersi** gydag "anaml" neu "byth" (gw. tudalen 7)


Peidio â chael cymorth yn yr ysgol → dywedodd 13% "byth" neu "anaml" mewn ymateb i **Rwy'n cael digon o gymorth gan fy athrawon os ydw i'n gweld rhywbeth yn anodd** (gw. tudalen 6)




## Diogel yn yr ysgol

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, fodd bynnag, dywedodd 11% o ddisgyblion eu bod yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" pan ofynnwyd iddynt a ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Ni allai 27% arall "gytuno nac anghytuno" â'r datganiad.

## Teimlad o berthyn



Gofynnon ni i ddisgyblion ymateb i'r datganiad "Rwy'n teimlo fy mod i'n perthyn yn yr ysgol" ac roedd y mwyafrif (36%) yn gallu cytuno, fodd bynnag, nid oedd bron cymaint yn gallu cytuno neu anghytuno ac roedd 20% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.



# Gwerthoedd

**Gofynnom i ddisgyblion fyfyrio ar beth maen nhw'n teimlo mae eu hysgol yn gwerthfawrogi a pharchu o fewn yr ysgol.**

Roedd
**85%**
yn teimlo bod disgyblion anabl yn cael eu gwerthfawrogi a pharchu.

Cytunodd
**80%**
fod pob disgybl yn cael ei werthfawrogi a pharchu, boed eu teuluoedd yn gyfoethog neu'n dlawd.

Teimlai
**83%**
bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu gwerthfawrogi a pharchu.

Cytunodd
**71%**
bod eu hysgol yn gwerthfawrogi a pharchu disgyblion lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.

Cytunodd
**81%**
bod disgyblion o bob cefndir ethnig yn cael eu gwerthfawrogi a pharchu.

Roedd
**69%**
yn "cytuno" neu'n "cytuno i raddau" bod eu hysgol yn gwerthfawrogi a pharchu disgyblion trawsryweddol neu anneuaidd.

### Ar y cyfan, cadarnhaol oedd agweddau disgyblion, ond mae ein canlyniadau'n awgrymu bod gwahaniaeth yng nghanfyddiadau merched a bechgyn...

Y datganiad gyda'r ganran isaf o ddisgyblion yn cytuno (62%) oedd "Mae bechgyn a merched yn cael eu gwerthfawrogi a pharchu'n gyfartal". Roedd gan y datganiad hwn hefyd y gyfran isaf yn dewis "cytuno" (41%) gyda mwy o ddisgyblion yn dewis "cytuno i raddau" (21%).

Dewisodd 20% arall "ddim yn cytuno nac yn anghytuno". Roedd "anghytuno i raddau" ar 8% a dewisodd 10% "anghytuno". Cafodd y 10% hwn ei yrru'n bennaf gan fechgyn gyda dwbl cyfran y bechgyn na merched yn nodi eu bod yn anghytuno bod bechgyn a merched yn cael eu trin yn gyfartal.



# Penderfyniadau yn yr ysgol

**Yn gyson ar draws grwpiau blwyddyn, mae penderfyniadau'r disgyblion ar ddewis pwnc ysgol yn seiliedig ar ba mor dda yr oeddent yn y pwnc penodol gyda 64% yn enwi hyn fel ffactor o'u penderfyniad. Dim ond nifer fach (15%) a gafodd eu dylanwadu gan ddewisiadau eu ffrindiau.**

Fodd bynnag, hyd yn oed yng nghyfnodau cynnar eu haddysg, mae disgyblion yn gwneud dewisiadau sy'n berthnasol i'w **gyrfa dyfodol**, gyda 62% yn nodi mai eu llwybr gyrfa deniadol oedd yn llywio eu dewisiadau pwnc.

Mae **rhieni** hefyd yn dylanwadu ar benderfyniadau ar gyfer 35% o ddisgyblion, tra bod gan **athrawon** lawer llai o ddylanwad, gyda dim ond 16% yn nodi bod eu hathrawon wedi dylanwadu ar eu dewis pwnc.

**Roedd y canlyniadau hyn yn gyson ar draws grwpiau blwyddyn heb fawr o amrywiad rhwng Blynyddoedd 9 ac 11, a dim gwahaniaeth amlwg yn seiliedig ar gaffael ddisgwyliedig o ymwybyddiaeth alwedigaethol bellach.**

Lle roedd gwahaniaeth bach oedd dylanwad rhieni, a arweiniodd at ganran uwch ym Mlwyddyn 11 na Blwyddyn 9, efallai oherwydd mwy o ymgysylltiad rhieni ar y cam hwn.

Y gwahaniaeth mwyaf yn ôl grŵp blwyddyn yw'r cwricwlwm lleol, gyda 22% o Flwyddyn 11 yn nodi bod **argaeledd pwnc** yn eu hysgol neu yn eu hardal wedi dylanwadu ar eu dewis, tra mai dim ond 11% o ddisgyblion gafodd eu dylanwadu gan hyn ym Mlwyddyn 9.



# Cymru amlieithog

**Eleni, fe ofynnom os oedd disgyblion yn siarad ieithoedd heblaw Saesneg neu Gymraeg gartref gyda 43% yn cadarnhau eu bod.**

Er bod hyn yn debygol o fod oherwydd demograffeg y sampl cymharol drefol a grybwyllwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn, daw'r ymatebion hyn o dros hanner ein hysgolion. Pan ofynnwyd iddynt pa ieithoedd oedd ar lafar yn eu cartrefi, roedd atebion yn cwmpasu ieithoedd o bob cwr o Ewrasia a rhai o Affrica.

**Roeddem hefyd eisiau gwybod os yw disgyblion mewn ysgolion ledled Cymru yn teimlo bod eu sgiliau amlieithog yn cael eu gwerthfawrogi.**

Gofynnom os oedd disgyblion sy'n siarad ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg gartref yn teimlo bod unrhyw un erioed wedi eu beirniadu am siarad yr iaith honno yn yr ysgol. Dywedodd 15% "ydw" a 9% "mae'n well gen i beidio â dweud" gyda'r ymatebion hynny'n dod gan ddwy o'r ysgolion yn ein harolwg. Dylid nodi bod gan yr ysgolion hynny gyfraddau ymateb uchel yn gyffredinol hefyd.

Roedd disgyblion o aelwyd lle siaredir iaith heblaw Saesneg neu Gymraeg y mwyaf hyderus yn eu gallu i ddysgu iaith newydd (roedd 27% yn "hyderus iawn"; 56% "weddol hyderus" a 17% "ddim yn hyderus o gwbl").


Disgyblion o gartrefi lle mae rhai yn siarad ieithoedd eraill oedd nesaf mwyaf hyderus (roedd 21% yn "hyderus iawn"; 58% "weddol hyderus" a 22% "ddim yn hyderus o gwbl") gyda disgyblion o gartrefi lle nad oedd unrhyw iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg yn cael ei siarad leiaf hyderus (roedd 15% yn "hyderus iawn"; 48% "weddol hyderus" a 37% "ddim yn hyderus o gwbl").



# Cymraeg

## Dywedodd 65% o ddisgyblion eu bod yn siarad Cymraeg gyda'u hathrawon.

### Ydych chi'n siarad Cymraeg gyda'r canlynol...





**Mae'r 65% o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gyda'u hathrawon yn cynnwys:**

- **92%** o ddisgyblion o gartrefi lle mae pawb yn siarad Cymraeg
- **79%** o gartrefi lle mae rhai aelodau'n siarad Cymraeg
- **72%** o ddisgyblion sydd ag aelodau o'r teulu y tu allan i'w cartrefi sy'n siarad Cymraeg
- **49%** o ddisgyblion heb siaradwyr Cymraeg gartref nac yn eu teulu ehangach

Roedd 51% o ddisgyblion heb siaradwyr Cymraeg hyd yn oed yn eu teulu ehangach heb dicio'r blwch "ydych chi erioed yn siarad Cymraeg gyda: athrawon".

Yn yr un modd, roedd disgyblion o'r cefndir hwn yn fwy tebygol o fynychu ysgolion cyfrwng Saesneg (65% v. 10% mewn ysgolion dwyieithog/cyfrwng Cymraeg). Pan ofynnwyd iddynt pa mor hyderus maen nhw'n teimlo am sgiliau penodol, roedd disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn llai hyderus wrth siarad Cymraeg, er bod ychydig llai na hanner yn dweud eu bod yn "weddol hyderus" (46%).

### Pa mor hyderus ydych chi o ran eich sgiliau yn y canlynol? Siarad Cymraeg




# Deallusrwydd artiffisial (AI) ac ysgolion

**Roedd arolwg eleni yn cynnwys adran er mwyn deall agweddau disgyblion tuag at a'u defnydd o 'ddeallusrwydd artiffisial' cynhyrchiol (GenAI), yn enwedig o ran defnyddio GenAI ar gyfer gwaith ysgol.**

## Ydych chi erioed wedi defnyddio AI Cynhyrchiol (e.e. ChatGPT neu Gemini) i helpu gyda gwaith ysgol? (Ticiwch yr holl ffyrdd rydych chi wedi'u defnyddio isod).

### Dw i wedi defnyddio AI Cynhyrchiol i...





## Yn gyffredinol, roedd 62% o ddisgyblion yn yr arolwg wedi defnyddio GenAI i helpu gyda'u gwaith ysgol.

Y defnydd mwyaf cyffredin o GenAI oedd ymchwil gyffredinol a chyfieithu.

Yn ôl pwnc, defnyddio offer GenAI ar gyfer Mathemateg oedd fwyaf poblogaidd gyda dros chwarter (26%) wedi ei ddefnyddio i helpu, yna Saesneg a Chymraeg yn dilyn (17% a 14% yn y drefn honno).

## Pam nad ydych chi wedi defnyddio AI Cynhyrchiol i'ch gwaith ysgol?




## Y rhesymau a roddodd pobl dros beidio â defnyddio'r dechnoleg




Rhoddodd y 38% o bobl oedd ddim yn ddefnyddwyr o'r graff blaenorol eu rhesymau dros beidio â defnyddio'r dechnoleg.

Y rheswm mwyaf arwyddocaol a roddwyd am hyn oedd y gred bod defnyddio GenAI yn twyllo, gyda 10% yn amau y byddai'n helpu ac 8% yn poeni am gywirdeb y wybodaeth sy'n cael ei darparu.


Roedd ymatebion agored pobl oedd ddim yn ddefnyddwyr yn amrywio o apathi – "does gen i ddim ots amdano" – i elyniaeth, gydag ymatebion fel "dw i'n casáu AI" neu "does dim ei angen arnaf, rwy'n glyfar", neu gydnabyddiaeth bod y defnydd o AI wedi'i wahardd yn eu hysgol.

## A ydy eich ysgol neu'ch athro/athrawes wedi trafod caniatád i ddefnyddio AI Cynhyrchiol ar gyfer gwaith cartref?




**Roedd cysondeb ar draws ysgolion ynglŷn ag athrawon yn cynghori disgyblion ar AI gyda dim ond ysgol C fymryn yn eithriadol.**


## Ydych chi'n meddwl ei bod yn twyllo ai beidio i ddisgyblion ddefnyddio AI Cynhyrchiol yn y ffyrdd canlynol?




**Ynghylch ymwybyddiaeth disgyblion o ddefnydd moesegol o AI, gofynnom sut y buasent yn defnyddio'r dechnoleg wrth ysgrifennu traethodau.**


Roedd 78% yn ymwybodol bod cael AI i ysgrifennu traethawd ac yna'n ei roi i athro yn fath o dwyllo. Roedd 26% yn credu bod cael AI i ysgrifennu traethawd ac yna'n treulio hanner awr yn ei olygu yn anfoesegol ac roedd dros 50% yn credu nad oedd defnyddio AI i wella'r hyn yr oeddent wedi'i ysgrifennu yn twyllo.

## Ydych chi erioed wedi defnyddio AI Cynhyrchiol ar gyfer unrhyw un o'r canlynol?




Adlewyrchwyd pryderon diweddar ynghylch defnydd uchel pobl ifanc o fotiau sgwrsio AI ar gyfer cyngor personol yn ein data gyda 34% o ddisgyblion yn nodi eu bod wedi defnyddio AI ar gyfer cyngor ynghylch materion personol. Y prif ddefnydd arall o AI ymhlith ein disgyblion oedd creu cerddoriaeth neu eiriau i ganeuon (32%).


## Mae rhai pobl yn defnyddio AI Cynhyrchiol i ofyn am gyngor ar faterion personol. Faint fyddech chi'n ymddiried mewn cyngor a roddodd bot sgwrsio (chatbot) AI Cynhyrchiol (e.e. ChatGPT) i chi?




### Gofynnom a ydyn nhw'n defnyddio AI ar gyfer cyngor personol.

Hyd yn oed i'r rhai oedd heb ddefnyddio'r offer yn y modd hwn, buasai nifer fawr o ddisgyblion yn ymddiried yng nghyngor AI, gyda 13% yn ymddiried yn AI "yn llwyr" a 64% yn ymddiried yn AI "ychydig".

## Ydych chi'n meddwl y bydd AI Cynhyrchiol yn cael effaith gadarnhaol (positive) neu negyddol ar eich bywyd yn y 10 mlynedd nesaf?




Rhoddodd disgyblion ymateb cymysg pan ofynnwyd iddynt a fydd AI yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar eu bywydau. Fodd bynnag, roedd eu hymatebion yn tueddu at y cadarnhaol, gyda dwywaith cymaint o ddisgyblion (20% yn hytrach na 10%) yn nodi y bydd y dechnoleg yn cael effaith gadarnhaol.



## Dewiswch y TRI gair isod sy'n disgrifio eich meddyliau a'ch teimladau am AI Cynhyrchiol orau




**Adlewyrchwyd y tueddiad hwn tuag at farn fwy cadarnhaol o dechnoleg AI yn newisiadau geiriau disgyblion i ddisgrifio eu hagwedd tuag at AI.**

Y dewisiadau lleiaf aml oedd "pryderus", "ofnus", a "nerfus", er bod 42% o ddisgyblion yn dewis "amheus". Y prif ymateb gan ein disgyblion oedd eu bod yn "chwilfrydig" (60%) ynglŷn â'r hyn y gallai AI ei wneud.

# Cyllid

Mae Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD (WMCS) wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru.

# Amdanom ni

Mae Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) yn sefydliad ymchwil gwyddorau cymdeithasol cenedlaethol, rhyngddisgyblaethol. Rydym wedi cael ein dynodi gan Lywodraeth Cymru fel canolfan ymchwil genedlaethol.

- **wiserd.ac.uk**
- **@wiserd-research.bsky.social**
- **@wiserdnews**
- **@WISERD**
- **@WISERD**

# Sut i gymryd rhan

Os ydych chi'n gweithio mewn ysgol ac yn dymuno cymryd rhan yn y WMCS, cysylltwch â: **WMCS@caerdydd.ac.uk**

Mae WISERD yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o wahanol sefydliadau. Os hoffech ddarganfod mwy am ein hymchwil, os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio gyda ni ar ddigwyddiad ar y cyd neu os hoffech gyd-gynhyrchu darn o ymchwil, cysylltwch â ni.